**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y cyfarfod:** Dydd Mawrth 25 Mehefin 2013

**Aelod Arweiniol Cabinet:** Y Cynghorydd Hugh Evans

**Swyddog Arweiniol:** Tom Booty – Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen

**Teitl:** Adfywio'r Rhyl – Cyllid y Cam Nesaf: Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Lansiwyd fframwaith adfywio newydd Llywodraeth Cymru - Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar 11 Mawrth 2013. Mae'r fframwaith yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer blaenoriaethu cyllid adfywio. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r cefndir ac yn cynnig argymhelliad o ran cais Sir Ddinbych.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Lluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn derbyn cefnogaeth y Cabinet ar gyfer datblygu a chyflwyno cais am gyllid dan raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar gyfer Canol Tref y Rhyl.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Cabinet yn cefnogi:

- datblygu cais am gyllid ar gyfer Canol Tref y Rhyl; a
- cyflwyno cais Cam 1 (Rhaglen Amlinellol Strategol) erbyn 12 Gorffennaf 2013.

Sylwch hefyd ein bod yn chwilio am gefnogaeth bellach gan bwyllgorau perthnasol ac asiantaethau partner, ac y bydd y Cabinet (yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru) yn cymeradwyo cyflwyno cais Cam 2 yn ffurfiol ar 3 Medi 2013 (gwelwch adran 7).

## 4 Manylion am yr adroddiad

Mae Ardal Adfywio Arfordir presennol Gogledd Cymru yn ymestyn o Brestatyn yn y dwyrain i Fae Colwyn yn y gorllewin. Oherwydd problemau amddifadedd cymdeithasol ac economaidd sylweddol yn yr ardal, mae'r rhaglen yn Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar y Rhyl. Trwy'r rhaglen hon mae Sir Ddinbych wedi llwyddo i sicrhau arian ar gyfer nifer o fentrau a phrosiectau gan gynnwys Harbwr y Rhyl, Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl ac adnewyddu Gwesty'r Bee and Station. Fodd bynnag, mae arian y rhaglen hon yn dod i ben fis Mawrth 2014. Yn y dyfodol byddai'n rhaid mynd trwy broses gystadleuol dan Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid i sicrhau cyllid adfywio.

Mae Cyfarwyddyd Ymgeisio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Mae'r cyfarwyddyd yn nodi rhai o'r prif egwyddorion a'r dulliau a ddisgwylir, ynghyd â'r prif flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn adfywio, sef:

- Dull mwy penodol ar gyfer cynllunio a rheoli mannau cyhoeddus yn llwyddiannus sy'n buddsoddi mwy mewn llai o leoedd i gael yr effaith gorau posib.

- Tair blaenoriaeth frys ar gyfer buddsoddiad wedi ei dargedu:
  - Canol trefi yn gwasanaethu trefi'r 21 Ganrif
  - Cymunedau arfordirol
  - Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

- Cydnabod pwysigrwydd darpariaeth ac atebolrwydd lleol drwy bartneriaethau lleol.

Mae cyfarfodydd â Swyddogion Llywodraeth Cymru a'r cyfarfodydd ynglŷn â'r cyfarwyddyd ymgeisio wedi eu cynnal ac awgrymwyd y canlynol:

- Dim ond un cais y caiff Awdurdod Lleol ei gyflwyno;

- Bydd arian ar gael am gyfnod o 3 blynedd yn dechrau fis Ebrill 2014;

- Dull aml-ganolfan (e.e. mae cais yn seiliedig ar sawl canol tref yn debygol o fod yn aflwyddiannus)

- O ran y tair blaenoriaeth frys, mae'r pwyslais yn dal i fod ar ganol trefi ond, oherwydd natur portffolio'r Gweinidog, awgrymwyd y byddai ceisiadau sy'n mynd i'r afael â materion tai yn ddymunol. Mae Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn ystyriaeth allweddol, ond mae Cymunedau Arfordirol yn ymddangos fel petai wedi ei osod yn is i lawr y drefn flaenoriaeth; a

- Bydd cyllid ar gael ar y raddfa ymyrraeth o 75% ar draws y rhaglen (efallai y bydd cyfle i brosiectau unigol dderbyn cyfradd ymyrraeth uwch), ond nid oes modd defnyddio cyllid arall gan Lywodraeth Cymru na chyllid Ewropeaidd fel arian cyfatebol.

O ran y mater ariannu, mae gwariant sylweddol eisoes wedi ei gynllunio yn y Rhyl trwy'r gwasanaethau Adfywio, Priffyrdd a gwasanaethau eraill a byddai modd defnyddio hyn fel arian cyfatebol. Byddai buddsoddiad gan y sector preifat hefyd yn gymwys fel arian cyfatebol, ac mae yna eisoes fwriad o fuddsoddiad preifat sylweddol yn ystod cyfnod y rhaglen yn sgil datblygiad gwesty newydd a Chanolfan Nofio. Bydd buddsoddiad pellach gan y sector preifat yn cael ei hyrwyddo trwy'r rhaglen. O ystyried yr arian cyfatebol a nodwyd uchod, cynigir i ddatblygu cais o amgylch yr adnoddau presennol ac o'r herwydd ni fyddai angen neilltuo mwy o gyllid cyfalaf CSDd i gefnogi'r cais.

Yn wreiddiol roedd y swyddogion wedi trafod cais Sirol a oedd yn canolbwyntio ar holl ganol trefi'r sir. Ond, yn dilyn awgrymiadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru, credir na fyddai cais o'r fath yn llwyddiannus ac y byddai cais sy'n canolbwyntio ar un canol tref yn fwy addas. O fewn Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen, mae canol y dref eisoes wedi ei hadnabod fel mater o bwys a'r flaenoriaeth nesaf i fynd i'r afael â hi. Ar sail hynny yn ogystal â'r cyfarwyddyd ymgeisio sydd wedi ei chyhoeddi ac awgrymiadau Llywodraeth Cymru, ystyrir bod cais sy'n canolbwyntio ar ganol tref y Rhyl yn gais cryf a all lwyddo oherwydd:

- Mae'n ymddangos yn uchel ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru;

- Mae'n ardal Cymunedau yn Gyntaf;

- Mae yna strategaeth a strwythur llywodraethu yn Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen i gefnogi'r cais a'r gweithredu i ddilyn.

- Mae yna ddull aml-asiantaeth cryf i adfywio'r Rhyl sy'n cynnwys Strategaeth Dinas y Rhyl, Cymunedau yn Gyntaf, Coleg Llandrillo y Rhyl a Heddlu Gogledd Cymru;

- Gallwn arddangos nawdd a chyllid cyfatebol sylweddol trwy weithgarwch presennol Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen, a thrwy'r partneriaid a nodwyd uchod; a

- Gallwn arddangos ymrwymiad cryf gan y sector preifat trwy'r cynnig ar gyfer gwesty newydd ar safle'r Honey Club, y cynigion ar gyfer Cyfleusterau arfordirol a thrwy ymrwymiad datblygwyr o ran Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.

Byddai hyn oll yn rhoi sail gadarn i'n cais, sail na fyddai modd i unrhyw dref arall yn Sir Ddinbych ei darparu. O ystyried natur gystadleuol y broses, cymeradwyir datblygu cais sy'n seiliedig ar yr ardal sydd a'r posibilrwydd uchaf o lwyddo.

Os byddwn yn datblygu'r cais, cynigir y dylai'r cais roi blaenoriaeth i ddatblygu busnes, entrepreneuriaeth a chreu swyddi newydd yng nghanol y dref. Byddai hyn yn canolbwyntio ar fanwerthu, yn arbennig o fewn y sector annibynnol a sectorau wedi eu tangynrychioli fel bwyd, ond o ran y cyd-destun manwerthu newidiol, byddai hefyd yn ystyried sut gall canol y dref gefnogi darpariaeth tai amrywiol a gwasanaethau ehangach. Byddai'r cyllid ar gyfer cyfalaf yn hytrach na refeniw, ond byddai hyn yn darparu cyfle i sicrhau cyllid ar gyfer caffael eiddo, adnewyddu, cynlluniau grant, gwelliannau amgylcheddol ac, o bosib, gwelliannau i feysydd parcio. Byddai'n rhaid i unrhyw gynllun cyfalaf gael ei gefnogi gan fentrau busnes a hyfforddi addas.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r prosiect hwn yn cyfrannu at y blaenoriaethau corfforaethol arfaethedig canlynol:

**5.1: Blaenoriaeth 1 – Datblygu'r Economi Leol a'n Cymunedau**
Drwy greu cyfleodd busnes a swyddi yng nghanol y dref.

**5.2: Blaenoriaeth 6 – Sicrhau mynediad at dai o ansawdd**
Drwy gynorthwyo i amrywio'r dewisiadau tai sydd ar gael

**6 Faint fydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni fyddwn yn gwybod faint fydd y costau nes bydd penderfyniad wedi ei wneud ar ein cais. Fodd bynnag, mae £30 miliwn ar gael yn flynyddol drwy'r rhaglen ar lefel cenedlaethol ac o dybio y bydd 6 i 8 cais llwyddiannus, gallwn ragweld y byddwn yn derbyn £3 i £5 miliwn y flwyddyn (£5 miliwn yw'r uchafswm y gellir ei dderbyn pob blwyddyn).

Wrth gwrs, byddai angen mewnbwn gwasanaethau eraill wrth ddatblygu'r cais a byddai'n rhaid deall ac ystyried effaith refeniw unrhyw gynnig.

**7 Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal?**

Mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal yn ystod Brîff y Cabinet a chyda rhai partneriaid allweddol sy'n cefnogi datblygu cais sy'n canolbwyntio ar Ganol Tref y Rhyl. Mae hyn yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Brîff Cabinet | 03 Mehefin |
| Strategaeth Dinas y Rhyl | 04 Mehefin |
| Bwrdd Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf | 05 Mehefin |
| Bwrdd Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen | 06 Mehefin |
| Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl | 06 Mehefin |

Wrth ddatblygu'r cais bydd arnom angen ymgynghoriadau pellach gyda:

| | |
|---|---|
| Cyngor Tref y Rhyl | 19 Mehefin |
| Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth | 20 Mehefin |
| Grŵp Buddsoddi Strategol | 26 Mehefin |
| Grŵp Aelodau Ardal Dinbych | 8 Gorffennaf |
| Grŵp Aelodau Ardal Prestatyn a Gallt Melyd | 11 Gorffennaf |
| Grŵp Aelodau Ardal Elwy | 19 Gorffennaf |
| Grŵp Aelodau Ardal Rhuthun | 29 Gorffennaf |
| Grŵp Aelodau Ardal Dyffryn Dyfrdwy | 29 Gorffennaf |
| Y Cabinet | 03 Medi |

Os yw cais Cam 1 yn llwyddiannus a'n bod yn cael ein gwahodd i gyflwyno cais Cam 2, byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

## 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae hyn yn amlwg yn gyfle pwysig i Sir Ddinbych gael arian grant allanol. Os byddwn yn llwyddiannus, bydd angen i ni ddod o hyd i tua £3m o arian cyfatebol dros gyfnod o dair blynedd.  Nid oes gan y Cyngor ddigon o arian ychwanegol i ddiwallu'r gofyniad hwn.  Ond, oherwydd y gweithgareddau a gynhaliwyd eisoes, dylai bod digon o fuddsoddiad i ddiwallu'r gofyniad arian cyfatebol hwn.

Dylid cael eglurder cyn dechrau unrhyw brosiect unigol bod unrhyw arian cyfatebol arfaethedig yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru a dylai prosiectau gael eu harchwilio gan y Grŵp Buddsoddi Strategol.

## 9 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y brif risg ar hyn o bryd yw:

- **Cais aflwyddiannus** – bydd yn rhaid i staff ar draws y mudiad ac asiantaethau partner roi llawer o'u hamser a'u hadnoddau i ddatblygu'r cais. Os nad ydym ni'n sicrhau'r cyllid, bydd amser ac adnoddau'r staff yn datblygu'r cais yn cyflawni fawr ddim.

## 10 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972